Centre of expertise on child sexual abuse

# Teipoleg newydd o droseddau cam-drin plant yn rhywiol

## Crynodeb gweithredol

Y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol mewn cydweithrediad â'r Centre for Abuse and Trauma Studies, Prifysgol Middlesex

Mawrth 2020

# Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno teipoleg newydd o gam-drin plant yn rhywiol, a ddatblygwyd drwy ymchwil o dan arweiniad y Centre for Abuse and Trauma Studies (CATS) ym Mhrifysgol Middlesex a'r Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol (y Ganolfan CSA) yn ystod y 18 mis diwethaf.

Nod yr ymchwil oedd datblygu teipoleg newydd o droseddau cam-drin plant yn rhywiol drwy ganolbwyntio ar gyd-destun y troseddu ac edrych ar fathau sy'n adlewyrchu gwahanol batrymau o droseddu, yn hytrach na chanolbwyntio ar nodweddion y cyflawnwr neu'r dioddefwr. Mae'r deipoleg felly'n ceisio cyflwyno cynrychiolaeth lawnach o droseddau cam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys cam-drin ar-lein a cham-drin drwy gysylltiad, gan ein galluogi i edrych ar gam-drin plant yn rhywiol mewn goleuni newydd a'i gwneud yn bosibl i ganfod cysylltiadau rhwng gwahanol fathau o droseddu a allai gael eu colli fel arall.

Drwy ein gwaith blaenorol yn y Ganolfan CSA, daeth yn amlwg bod adnabod a disgrifio patrymu troseddu a'r cyd-destunau lle mae cam-drin plant yn rhywiol yn digwydd yn allweddol i ddatblygu dealltwriaeth well o'r mater ac i ymateb iddo, Roeddem yn awyddus i edrych ar natur y cam-drin a oedd yn cael ei gyflawni. Er enghraifft, pa gysylltiadau sy'n bodoli rhwng dioddefwyr a chyflawnwyr? Beth mae'r cam-drin yn ei gynnwys? Ym mhle a sut mae'n digwydd? Heb ddiffiniadau pendant o'r gwahanol fathau o gam-drin plant yn rhywiol a chyd-ddealltwriaeth o sut mae cam-drin plant yn rhywiol yn digwydd, ni fydd modd cael cyfeiriad clir i ddatblygu gwybodaeth yn y maes hwn yn y dyfodol.

Mae'r astudiaeth gyfredol, felly, wedi deillio o'n hawydd i edrych o'r newydd ar gam-drin plant yn rhywiol yn ei gyflawnder a chanolbwyntio ar droseddu – y gweithredoedd a phatrymau'r ymddygiad dan sylw, a'u cyd-destunau – yn hytrach nag ar gyflawnwyr fel unigolion. Credwn y bydd dealltwriaeth well o droseddu ei hun yn helpu i gael mwy o eglurder a chysondeb yn y ffordd y gall asiantaethau ganfod ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol, a bydd hyn helpu llunwyr polisi ac ymarferwyr i fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol mewn modd sy'n seiliedig ar wybodaeth.

Cafodd yr ymchwil gychwynnol i ddatblygu'r deipoleg ei chynnal gan CATS. Roedd yn cynnwys dadansoddi 157 o ffeiliau achos a ddarparwyd gan Heddlu Norfolk, y Gwasanaeth Heddlu Metropolitan, Heddlu Sussex, Heddlu West Yorkshire  a Sefydliad Lucy Faithfull, ynghyd â 10 grŵp ffocws gyda gweithwyr proffesiynol o ystod o sefydliadau o'r sectorau statudol a gwirfoddol ledled Cymru a Lloegr.

Cafodd rhagor o waith ei wneud gan y Ganolfan CSA i adolygu, profi a mireinio'r deipoleg. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad gan yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA), ymarferwyr mewn cynadleddau a drefnwyd gan y National Organisation for the Treatment of Abusers (NOTA) ac Argyfwng Trais Cymru a Lloegr (RCEW), a'r tîm ehangach yn y Ganolfan CSA.

Mae'r deipoleg yn nodi naw math o gam-drin plant yn rhywiol. Dylid nodi nad oes dim ymdeimlad o hierarchaeth yn cael ei awgrymu wrth gyflwyno'r gwahanol fathau; ac er bod gorgyffwrdd rhwng y gwahanol fathau, mae pob math yn ymdrech i ddisgrifio cyd-destun penodol sy'n cynnwys set o ymddygiadau a nodweddion sy'n diffinio math penodol o gam-drin.

Dylid nodi hefyd bod y deipoleg yn canolbwyntio ar droseddu gan oedolion. Mae cyd-destunau cam-drin gan rai o dan 18 oed yn debygol o amrywio'n sylweddol oddi wrth gyd-destunau'r gamdriniaeth a gyflawnir gan oedolion, a dylid edrych arno ar wahân ac mewn ffordd wahanol.

> Heb gyd-ddealltwriaeth o sut mae cam-drin plant yn rhywiol yn digwydd, ni fydd modd cael cyfeiriad clir i ddatblygu gwybodaeth yn y maes hwn

**Cam-drin plant yn rhywiol o fewn amgylchedd y teulu.** Mae'r math hwn yn canolbwyntio ar blentyn neu berson ifanc sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol gan oedolyn sy'n aelod o'r teulu, neu gan oedolyn sy'n gysylltiedig â'r teulu neu ag un o'i aelodau.

**Cam-drin plant yn rhywiol drwy berthnasoedd sy'n seiliedig ar ymddiried y tu allan i amgylchedd y teulu.** Mae'r math hwn yn canolbwyntio ar blentyn neu berson ifanc sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol gan rywun sydd ag awdurdod drostynt o ganlyniad i rôl broffesiynol neu alwedigaethol. Mae'n cynnwys cam-drin plant yn rhywiol sy'n cael ei gyflawni mewn sefydliadau, ond hefyd yn y gymuned, yn y DU a thramor, lle mae'r cyflawnwr yn gallu manteisio ar sefyllfa o bŵer (yn achos y plentyn neu berson ifanc, eu teulu a/neu'r gymuned leol) drwy'r ymddiried sy'n dod yn sgil eu rôl.

**Cam-drin plant yn rhywiol drwy gyfryngwr.** Mae'r math hwn yn canolbwyntio ar gam-drin plentyn neu berson ifanc sy'n cael ei gyflawni gan fwy nag un cyflawnwr; mae'r cyflawnwr sy'n cychwyn y cam-drin (y cyflawnwr cychwynnol) yn ceisio cael mynediad at y plentyn, neu at ddelweddau o'r plentyn, drwy gyflawnwr arall (y cyflawnwr cyfryngol). Gall y cyflawnwr cyfryngol gredu eu bod mewn perthynas agos â'r cyflawnwr cychwynnol, neu gallant gael eu gorfodi i hwyluso a/neu gyflawni'r cam-drin.

**Cam-drin plant yn rhywiol drwy ryngweithio ar-lein.** Mae'r math hwn o gam-drin yn canolbwyntio'n benodol ar sefyllfaoedd lle mae cyflawnwr yn gweithredu ar-lein, yn annog/twyllo/gorfodi plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn sgyrsiau rhywiol eu natur neu weithredoedd rhywiol ar-lein, a/neu gynhyrchu delweddau (ffotograffau neu fideos) ohonynt eu hunain y maent wedyn yn eu rhannu ar-lein â'r cyflawnwr.

**Cam-drin plant yn rhywiol drwy wylio, rhannu neu feddu ar ddelweddau.** Mae'r math hwn o gam-drin yn canolbwyntio ar wylio delweddau o gam-drin plant yn rhywiol sydd wedi eu creu eisoes. Gall hyn gynnwys gwylio, meddu ar a rhannu delweddau (ffotograffau neu fideos) ag eraill, yn bennaf (ond nid yn gyfan gwbl) ar-lein.

**Cam-drin plant yn rhywiol drwy grwpiau a rhwydweithiau.** Mae'r math hwn yn canolbwyntio ar gam-drin rhywiol sy'n cael ei gyflawni gan gyflawnwyr sy'n rhan o grŵp neu rwydwaith. Gall y rhain fod yn grwpiau cymdeithasol, gangiau neu rwydweithiau sy'n cwrdd wyneb yn wyneb, neu mewn grŵp neu rwydwaith lle mae'r aelodau yn rhyngweithio ar-lein ac yn parhau'n ddienw. Gall y cam-drin gynnwys cam-drin drwy gysylltiad â/neu greu/rhannu delweddau o gam-drin plant yn rhywiol. Mae'n cael ei hwyluso a'i annog gan aelodau'r grŵp/rhwydwaith, h.y. gall yr aelodau gynllunio ar y cyd a/neu annog ei gilydd i gam-drin neu i waethygu'r cam-drin.

**Cam-drin plant yn rhywiol sy'n cael ei drefnu a'i gyflawni am dâl.** Mae'r math hwn yn cynnwys cam-drin plentyn neu berson ifanc gan un neu ragor o gyflawnwyr lle mae cyflawnwr ("y gwerthwr"), yn gyfnewid am dâl (ariannol neu arall), yn cynnig mynediad at y plentyn neu berson ifanc i gyflawnwyr eraill ("prynwyr") i'w cam-drin drwy gysylltiad a/neu i greu a gwerthu delweddau (ffotograffau neu fideos) o'r cam-drin, e.e. drwy ffrydio byw.

**Cam-drin plant yn rhywiol drwy gysylltiad personol.** Mae'r math hwn o gam-drin yn disgrifio cam-drin a gyflawnir gan gyflawnwr sy'n meithrin cysylltiad personol â phlentyn neu berson ifanc ac yn eu paratoi neu'n eu gorfodi i gael eu cam-drin yn rhywiol.

**Cam-drin plant yn rhywiol gan berson anhysbys.** Mae'r math hwn o gam-drin yn disgrifio sefyllfaoedd lle mae cyflawnwr, sy'n anhysbys i'r plentyn neu berson ifanc, yn ymosod yn rhywiol arnynt.

- Cam-drin plant yn rhywiol drwy ryngweithio ar-lein
- Cam-drin plant yn rhywiol drwy wylio, rhannu neu feddu ar ddelweddau
- Cam-drin plant yn rhywiol drwy gysylltiad personol
- Cam-drin plant yn rhywiol o fewn amgylchedd y teulu
- Cam-drin plant yn rhywiol drwy grwpiau a rhwydweithiau
- Cam-drin plant yn rhywiol sy'n cael ei drefnu a'i gyflawni am dâl
- Cam-drin plant yn rhywiol gan berson anhysbys
- Cam-drin plant yn rhywiol drwy gyfryngwr
- Cam-drin plant yn rhywiol drwy berthnasoedd sy'n seiliedig ar ymddiried y tu allan i amgylchedd y teulu

Er bod datblygiad y deipoleg hyd yma wedi cynnwys proses o greu, mireinio a phrofi yn erbyn gwahanol setiau data, ac wedi ymgorffori ystod eang o safbwyntiau, mae'n bwysig dangos cymhlethdod y gwaith yn y maes hwn a chydnabod cyfyngiadau'r deipoleg hon. O ran y ffeiliau achos a ddefnyddiwyd yn natblygiad y deipoleg:

- Ni ellir tybio bod y sampl o ffeiliau achos yn gynrychioliadol o'r holl achosion o gam-drin plant yn rhywiol, yn enwedig o gofio mai lleiafrif yn unig o achosion o gam-drin plant yn rhywiol sy'n hysbys.
- Cafodd y data yn y ffeiliau achos ei gofnodi i ddibenion ymchwilio, cefnogi a rheoli achosion, ac nid i ddiben deall cyd-destun y troseddu.

Ac o ran natur y cam-drin rhywiol ei hun:

- Mae rhyngweithio ar-lein mor gyffredin erbyn hyn fel ei fod yn debygol o fod yn rhan o bron bob achos o gam-drin plant yn rhywiol. Ar yr un pryd, mae'n amlwg bod y byd ar-lein wedi creu amgylcheddau newydd sy'n rhoi cyfleoedd a sianelau i gyflawnwyr i hwyluso cam-drin plant yn rhywiol.
- Mae cam-drin plant yn rhywiol yn faes cymhleth, ac mae'n bwysig sylweddoli na fydd achosion unigol yn ffitio'n daclus bob amser i unrhyw un math penodol a ddiffinnir yn y deipoleg. Mae cydnabod a datgan y cymhlethdod hwn yn hanfodol, i ganfod ac i amharu ar gam-drin plant yn rhywiol ac i ymateb yn effeithiol i'r plant a phobl ifanc sy'n ei brofi.

Rydym yn gobeithio y bydd y deipoleg hon yn gwneud cyfraniad pwysig at bolisi ac at ymarfer, drwy oleuo a chyfleu'n fwy manwl ystod y cyd-destunau lle mae cam-drin plant yn rhywiol yn digwydd a chynyddu dealltwriaeth o natur a dynameg y gwahanol fathau o gam-drin. Bwriedir i'r deipoleg *oleuo* yn hytrach na *chyfarwyddo* ymarfer, drwy helpu i wella ein cyd-ymateb i gam-drin plant yn rhywiol drwy ddatblygu dealltwriaeth well o gymhlethdod y math hwn o gam-drin a'r mathau niferus ohono.

Mae troseddau cam-drin plant yn rhywiol yn fater cymhleth, a gall y cymhlethdod hwn fod yn llethol weithiau i ymarferwyr ac i lunwyr polisi. Dim ond drwy goleddu a deall cymhlethdod cam-drin plant yn rhywiol y gall ymarfer ddatblygu'n hyderus, ac felly nid yw'r deipoleg hon yn ymdrech i symleiddio na chynnig datrysiadau sydyn. Yn hytrach, mae'n ceisio helpu ymarferwyr, llunwyr polisi ac eraill i weld cam-drin plant yn rhywiol yn ei gyfanrwydd, gan annog datblygu ymatebion a gwasanaethau sy'n diwallu anghenion dioddefwyr a goroeswyr yn well drwy ganolbwyntio ar y cyd-destunau a'r ddynameg amrywiol lle mae cam-drin yn digwydd ynddynt. Byddwn yn ymgysylltu â sefydliadau a all gyfrannu gwahanol safbwyntiau a phrofiadau o gam-drin plant yn rhywiol, ac a fydd yn cymhwyso'r deipoleg gyda setiau data newydd. Byddwn yn rhoi sylw manwl i adborth ar y deipoleg hon, ac edrychwn ymlaen at weld sut y bydd polisi ac ymarfer yn datblygu mewn ymateb iddi.

> Dim ond drwy goleddu a deall cymhlethdod cam-drin plant yn rhywiol y gall ymarfer ddatblygu'n hyderus

Gellir lawrlwytho fersiwn Saesneg o'r adroddiad cyflawn yn **www.csacentre.org.uk/our-research/perpetration**

## Gair am y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol

Mae'r Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol (Canolfan CSA) yn dymuno gweld plant yn cael byw'n rhydd rhag bygythiad a niwed cam-drin rhywiol. Ein nod yw lleihau effaith cam-drin plant yn rhywiol drwy gamau atal gwell ac ymateb gwell.

Rydym ni'n dîm amlddisgyblaethol, sy'n cael ei ariannu gan y Swyddfa Gartref a'i gynnal gan Barnardo's, ac rydym yn gweithio'n agos â phartneriaid allweddol o sefydliadau academaidd, awdurdodau lleol, iechyd, addysg, yr heddlu a'r sector gwirfoddol. Fodd bynnag, rydym ni'n annibynnol a byddwn yn herio unrhyw rwystrau, rhagdybiaethau, tabŵau a ffyrdd o weithio sy'n ein hatal rhag cynyddu ein dealltwriaeth a gwella ein hagwedd at gam-drin plant yn rhywiol.

Er mwyn mynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol, mae'n rhaid i ni ddeall beth sy'n ei achosi, ei gwmpas, graddfa ac effaith. Gwyddom lawer am gam-drin plant yn rhywiol ac rydym wedi gwneud cynnydd i ymdrin â hyn, ond mae nifer o fylchau yn ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o hyd sy'n cyfyngu pa mor effeithiol yr eir i'r afael â'r mater.

Barnardo House, Tanners Lane, Barkingside, Ilford, Essex IG6 1QG
E: info@csacentre | @csacentre
**www.csacentre.org.uk**

21567sc20